Wrth iddynt ddefnyddio eu sgiliau Trafod a Thrin

Symud i mewn i Wagle i Dderbyn Gwrthrych

Mae hwn yn sgil sy'n golygu gwneud penderfyniadau ynghylch pryd a ble i symud i mewn i wagle i dderbyn gwrthrych a sut i wneud hynny'n llwyddiannus. Ystyr tracio yw monitro'r amgylchedd gan ddefnyddio symbyliadau yn sail i weithredu.







1. Gwylio/tracio'r chwarae neu'r gwrthrych
2. Penderfynu beth fydd y symbyliad i symud
3. Bod yn effro ac yn yr ystum 'Parod i Fynd' er mwyn gallu ymateb cyn gynted ag y bydd y symbyliad yn dod
4. Symud i wagle cyn gynted ag sy'n bosibl pan ddaw'r symbyliad, ond gan dracio'r amgylchedd ar hyd yr amser
5. Os yw'r ymgais yn aflwyddiannus, rhaid ail-leoli er mwyn adweithio eto pan fydd hynny'n briodol

Adnabod anawsterau...

Anhawster	Achos tebygol	Ateb
Y plentyn yn symud yn rhy gynnar	Mae'n ceisio achub y blaen, mae'n rhy awyddus	Annog y plentyn i adnabod yr hyn y mae'n aros i'w weld neu ei glywed
Y plentyn yn ymateb yn rhy araf	Nid yw yn yr ystum 'Parod i fynd', neu nid yw'n ymwybodol o'r symbyliadau perthnasol	Annog y plentyn i fynd i'r ystum 'Parod i Fynd' ac ymarfer adweithio i wahanol symbyliadau
Y plentyn yn sigledig	Nid yw'n cynnal sadrwydd craidd cryf	Pwysleisio pwysigrwydd ystum corff cryf, megis ystum 'Dal y Llygoden'

Cyfle i ddatblygu:

Sgiliau cydsymud – Ystwythder – Cydbwysedd – Sgiliau symud – Canolbwyntio – Manwl gywirdeb

Diogelwch!

Sicrhewch...


nad oes gwrthrychau ar y llawr

nad yw'r llawr yn llithrig

Wrth iddynt ddefnyddio eu sgiliau Trafod a Thrin

A allwch chi weld...?


- y plentyn yn tracio'r amgylchedd? ☐
- y plentyn yn bod yn effro/ymwybodol? ☐
- y plentyn yn yr ystum 'Parod i Fynd'? ☐
- y plentyn yn ymateb yn gyflym wrth sylwi ar symbyliadau? ☐
- y plentyn yn symud ar yr adeg 'gywir'? ☐
- y plentyn yn symud i mewn i wagle'n effeithiol? ☐
- y plentyn yn derbyn y gwrthrych yn llwyddiannus? ☐



× yn bennaf

✓ a ×

✓ yn bennaf



- Cerdded trwy'r broses gan ddefnyddio symbyliadau amlwg, annog y plentyn i symud tuag at y gwrthrych
- Annog y plentyn i ddweud rhywbeth pan fydd yn sylwi ar y symbyliadau



- Chwarae 'Mae Seimon yn dweud', lle na all y plant symud oni bai eu bod yn cael symbyliad i wneud hynny
- Symud o gwmpas mewn gwagle a gwneud gweithred benodol neu symud i mewn i wagle mewn ymateb i symbyliadau



- Gweithio mewn parau lle bydd un plentyn yn 'bwydo' ac yn aros yn yr unfan, ac un plentyn yn ymosod. Pan roddir symbyliad penodol bydd yr ymosodwr yn symud i mewn i wagle i dderbyn gwrthrych gan y plentyn sy'n bwydo
- Gweithio mewn grwpiau o dri lle bydd dau blentyn yn bwydo ac yn aros yn yr unfan, ac un plentyn yn ymosod. Pan roddir y symbyliad bydd yr ymosodwr yn symud i'r gwagle 'cywir' i dderbyn y gwrthrych

Symud i mewn i Wagle i Dderbyn Gwrthrych



- Pifodi ar bwys marciwr i greu gwagle i symud i mewn iddo
- Ychwanegu amddiffynnwr, i fod yn oddefol yn gyntaf ac yna'n weithredol, sy'n ceisio atal yr ymosodwr rhag derbyn y gwrthrych
- Sicrhau bod y plentyn yn symud i'r chwith ac i'r dde
- Cyfuno 'Ochrgamu', 'Pifodi' a 'Thraed Chwim' i symud i mewn i wagle i dderbyn gwrthrych mewn ymateb i ystod o symbyliadau, gan amrywio'r cyfeiriad, y llwybr a'r cyflymder

© Hawlfraint (Cyngor Chwaraeon Cymru) 2012. Cedwir pob hawl.

sportwales chwaraeoncymru
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
LOTTERY FUNDED ARIENNIR GAN Y LOTERI
chwarae • dysgu • tyfu play • learn • grow
Her Iechyd Cymru Health Challenge Wales